**Adroddiad i:** **Y Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **20 Tachwedd 2012**

**Aelod Arweiniol:** **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg**
**Awdur yr Adroddiad:** **Pennaeth Cefnogi Cwsmeriaid ac Addysg**

**Teitl:** **Darpariaeth Ysgolion Ffydd Uwchradd**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn ar ymgynghoriad anffurfiol ar yr achos dros newid darpariaeth ysgolion ffydd uwchradd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn ceisio dangos yn gliriach yr achos dros newid addysg ffydd uwchradd a'r angen i drafod goblygiadau'r newid gyda rhanddeiliaid.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo dechrau ymgynghoriad anffurfiol fis Rhagfyr 2012 ar yr achos dros newid Darpariaeth Ysgolion Ffydd Uwchradd.

## 4. Manylion yr adroddiad

Cynhaliwyd trafodaethau yn ystod y 3 blynedd diwethaf rhwng Esgobion a Swyddogion cyrff esgobaethol yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru, cynrychiolwyr Cyrff Llywodraethu'r Bendigaid Edward Jones a Santes Ffraid a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych. Roedd y trafodaethau cychwynnol yn ystyried beth allai'r weledigaeth tymor hir fod ar gyfer darparu ysgolion ffydd yn y sector uwchradd a'r ffynonellau posibl o gyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi hyn i ddigwydd.

Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar y pryderon ynghylch cynaliadwyedd y *status quo* presennol ar gyfer addysg ffydd yng Ngogledd Sir Ddinbych. Ystyrir y ddwy ysgol yn ysgolion bach yng nghyd-destun y Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg cyffredinol ac mae hynny'n cynnig heriau i arweinyddiaeth y ddwy ysgol o ran cynnal y safonau presennol a datgloi safonau posibl ar gyfer disgyblion y dyfodol. Mae cyfranogaeth Esgob Llanelwy a Swyddogion Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru wedi crybwyll y dewis o, efallai, ehangu'r ddarpariaeth ffydd i ddenu rhagor. Ar hyn o bryd, er bod yna nifer o ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Sir Ddinbych ond does dim darpariaeth Uwchradd i'r disgyblion hynny sy'n dymuno symud ymlaen i barhau'u haddysg ffydd.

I symud ymlaen, awgrymir y dylai'r Cyngor, mewn partneriaeth â chyrff esgobaethol yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Ysgol Santes Ffraid, ddechrau ar drafodaethau anffurfiol gyda rhieni, llywodraethwyr, staff a disgyblion y Bendigaid Edward Jones a Santes Ffraid i drafod yr achos dros newid ac i archwilio'r dewisiadau posibl ar gyfer symud ymlaen ac, o bosibl, i gydweithio rhwng y ddwy ysgol. Mae'r achos dros newid (gweler Atodiad 1) wedi'i ddatblygu gan gynrychiolwyr pob parti sydd â rhan yn y trafodaethau hyn.

O safbwynt addysgol awgrymir y gallai cydweithio rhwng y ddwy ysgol gynnig y manteision addysgol canlynol:-

- Datblygu arweinyddiaeth a strwythur rheoli ar draws y ddwy ysgol a fyddai'n cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff;

- Cyfleoedd ehangach i wella addysg y disgyblion e.e. prosiectau ar y cyd rhwng ysgolion, rhannu addysgu ac adnoddau dysgu;

- Gwella arbenigedd staff mewn meysydd arbenigol, codi safonau e.e. athrawon yn cydweithio i gynllunio, paratoi ac asesu;

- Cyfleoedd gwell i fonitro dysgu ar draws y ddwy safle ac i athrawon safoni a lefelu gwaith disgyblion.

Dylid hefyd archwilio'r goblygiadau posibl o gynnal y *status quo* yn y tymor canolig i hir. Ystyrir fod cyflwr y ddwy ysgol yn wael ac mae'u hamgylchedd dysgu'n amlwg yn cyfyngu ar ddarparu tu hwnt i'r cwricwlwm sylfaenol. Mae Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif y Cyngor, i'w darparu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cyllid posibl ar gyfer ddarparu addysg ffydd uwchradd. Bydd dyfarnu unrhyw gyllid yn dibynnu ar symud y cynigion i drefnu'r ysgolion yn eu blaen. Dylid nodi hefyd fod y Cyngor yn trafod gyda Llywodraeth Cymru i gael cadarnhad ynghylch faint o gyfraniad y bydd ei angen ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf a allai godi.

Disgwylir y bydd yr ymgynghoriad anffurfiol yn galluogi holl noddwyr posibl y prosiect i ddeall a fyddai rheini, y rhai presennol a rhai'r gorffennol, yn cefnogi ysgol ffydd ar y cyd a beth sy'n ysgogi'n bennaf rieni sy'n dewis addysg ffydd ar hyn o bryd.

Gallai canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori anffurfiol arwain at gynigion ffurfiol. Bydd unrhyw newidiadau i ddarpariaeth ysgol yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus hirfaith a gallai arwain at gyhoeddi cynigion statudol. Gweithredir cynigion trefniadaeth ysgolion fel arfer ar ôl cyfnod o 12 - 24 mis yn dibynnu ar natur pob cynnig.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r cynigion yn cefnogi'r Flaenoriaeth Gorfforaethol bresennol o Foderneiddio Addysg.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y costau cychwynnol ynghylch yr ymarfer ymgynghori, sef argraffu a phostio'r dogfennau i'r rhanddeiliaid ac unrhyw gostau llogi lleoliadau ayb.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ers 2009 rhwng Swyddogion Sir Ddinbych, Esgob Esgobaeth Gatholig Wrecsam ac Esgob Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, Llanelwy, swyddogion Addysg yr awdurdodau Esgobaethol a Chadeiryddion Llywodraethwyr a Phenaethiaid y Bendigaid Edward Jones a'r Santes Ffraid, i ddechrau datblygu cyflwyniad cyfalaf fel rhan o gyflwyniad Ysgolion yr 21ain Ganrif ac yna i ddatblygu'r dewisiadau ar gyfer newid.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dim ond mân gostau sy'n gysylltiedig â'r broses ymgynghori a bydd y rhain yn cael eu cyfarfod o'r cyllidebau presennol. Gallai canlyniadau'r ymgynghori arwain at oblygiadau ariannol arwyddocaol ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd yn rhaid i'r Cabinet ystyried sut y bydd y cynigion hyn yn cael eu hariannu.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y mae yna bosibilrwydd cryf y gallai'r cynnig olygu cyhoeddusrwydd gwael i'r Cyngor a sylwadau cyhoeddus gwrthwynebus.

I leihau'r risg bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y cyfathrebir yn glir gyda'r holl randdeiliaid.

## 10. Yr Hawl i Benderfynu

Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet, Ionawr 2009).w